



# DYDDL YFR GWEDDI

*11 diwrnod o weddi yn ystod  
Deled Dy Deyrnas*

# YMUNWCH Â THON FYD- EANG O WEDDI

Mae *Deled Dy Deyrnas* yn gyfle i chi weddio dros 5 person sy'n rhan o'ch teulu neu'n ffrindiau ac ymuno â thon o weddi sy'n digwydd ar draws y byd.

*Beth alla i wneud? Cofiwch ymrwymo i #addogweddio yn [thykingdomcome.global](https://thykingdomcome.global).*



# DYDDL YFR GWEDDI

Defnyddiwch y dyddlyfr hwn i fraslunio a nodi eich meddyliau, eich gweddïau ac unrhyw atebion wrth i chi symud trwy'r 11 diwrnod.

*Bob dydd mae thema wahanol i'ch helpu i weddiO. Mae fideos newydd ar gael bob dydd, yn dangos sut mae pobl ifanc eraill yn gweddïo dros eu teuluoedd a'u ffrindïau, felly edrychwch ar YouTube neu Vimeo Deled Dy Deyrnas.*

*Gallwch gymryd rhan befyd – postiwch eich meddyliau a'ch gweddïau trwy ddefnyddio'r hasbnodau, ac ymunwch â'r ymgyrch weddi fyd-eang hon.*

# **GWEDDIO DROS BUMP**



Dewiswch bum person i weddïo drostynt  
yn ystod *Deled Dy Deyrnas* a nodwch eu  
henwau yma:

# 1:

# ArIESU

Heddiw rwy'n #addogweddio #Arlesu

*Mae'r dillad rydych chi'n eu gwisgo heddiw yn dweud rhywbeth am y math o bethau rydych chi am gysylltu'ch hunan â nbw. Mae'r un peth yn wir am gerddoriaeth trwy eich clustffonau, y ffôn yn eich poced a'r pethau rydych chi'n tynnu lluniau obonyn nbw. Wrth gwrs rydyn ni i gyd am fod yn unigryw. Mae'n fater o fod yn ddilys. Ond mae pawb yn dilyn pobl eraill.*

*Mae disgybl yn dilyn Iesu. Ac mewn gwirionedd dyna'r unig ffordd o ddarganfod sut mae cyflawni ein natur unigryw ein hunain. Dyna'r unig lwybr i fod yn ddilys.*

*Pa mor agos rydych chi'n ei ddilyn ef? Gweddïwch y byddwch chi'n teithio ar hyd ei ffordd ef heddiw.*

Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n dy ddilyn di, Iesu*

Gweddiwch y bydd eich pum person yn  
dilyn Iesu hefyd.

Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n dy foli di, Iesu*

Gweddiwch y bydd eich ffrindiau a'ch  
teulu yn gweld gogoniant Duw.



# 2:

# MOLIAN

Heddiw rwy'n #addogweddio #moliant

*Mae moliant yn newid pethau. Nid mewn ffordd anghysurus, ond o leiaf yn y ffordd hon. Meddyliwch am berthynas sy'n llawn beirniadaeth. Pa effaith mae hynny'n ei chael arnoch chi? Wrth gwrs, mae'n negyddol. Mae'n mynd â'n begni, ac yn peri i ni gau i lawr. Ond pan fydd rhywun yn ein canmol – nid seboni cofiwch – mae effaith hynny arnon ni'n wych. Rydyn ni'n agor i fyny, ac yn teimlo'n fwy fel ni ein hunain.*

*Mae moli Iesu yn agor lle iddo fe ddod i gwrdd â ni. Dywedwch wrtho fe pam rydych chi eisiau ei foli. Agorwch le i ddod i gysylltiad ag ef.*



# 3:

## DIOLCH


Heddiw rwy'n #addogweddio #diolch

*Mae wastod rhywbeth gallwn ni gwyno amdano fe. Cwyno am rywbeth. Achwyn am rywbeth.*

*Ond po fwyaf rydyn ni'n gwneud hymny – lleia rydyn ni'n gweld y rhoddion o'n cwmpas.*

*Ond pan fyddwn ni'n cymryd amser i fod yn ddiolchgar rydyn ni'n gweld y cyfan yn wabanol.*

*Lluniwch restr o ddeg rheswm sydd gennych chi dros fod yn ddiolchgar. Ddylai hynny ddim bod yn anodd.*



Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n diolch*

Diolchwch i Dduw am y 5 person sy'n  
rhan o'ch teulu neu'n ffrindiau.

Dechreuadau gweddi:

*Mae'n flin gen i*

Gweddïwch y bydd eich pum person yn  
profi maddeuant Duw.

# 4:

# SORI

Heddiw rwy'n #addogweddio #sori

*Pan fydd rhywbeth yn sefyll rhyngon ni a'n ffrindiau a'n teulu – rhywbeth sydd wedi digwydd yr ydyn ni'n flin amdano, sydd wedi achosi poen, sy'n teimlo'n chwithbig – yr unig ffordd i berthynas gael ei hadfer yw trwy ddweud 'sori'. Fel arall, allwn ni byth edrych i fyw llygad y person yna.*

*Cyffesu yw dweud sori wrth Dduw – er mwyn i ni fedru edrych arno fe eto. Gofynnwch i'r Ysbryd Glân amlygu'r pethau mae angen i chi ddweud sori amdany'n nhw. Eisteddwch gerbron wyneb Duw, ac edrych arno fe. Byddwch chi'n gweld faint mae e'n eich caru.*

*Nawr dywedwch 'sori'.*



# 5:

## CYNNIG

Rydyn ni'n eich gwahodd i #addogweddi'o  
#cynnig

*Does gennym ni ddim bopeth sydd ei angen ar  
Dduw, ond mae gennym ni bopeth mae Duw  
eisiau, sef ein hunain. Nid dim ond arian neu  
amser, prosiectau neu ganeuon mae Duw eisiau –  
mae am ein cael ni yn ein cyfanrwydd.*

*Mae hyn yn ein synnu, oberwydd mae sut rydyn  
ni'n gweld ein hunain yn llawer llai na'r hyn mae  
Duw yn ei weld ynom ni. Ond ni yw'r bobl mae  
e eisiau.*

*Byddwch yn gwbl onest gyda Duw ynghylch beth  
rydych chi'n ei chael yn hawdd ei gynnig iddo, a  
beth rydych chi'n tueddu i'w gadw'n ôl. Rhowch  
fwy iddo fe heddiw*

Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n cynnig i ti*

Offrymwch weddi dros eich ffrindiau a'ch teulu.


6:

# GWEDDÏO DROS

Heddiw rwy'n #addogweddïo #Gweddïodros

*Un o'r rhoddion mwyaf gallwn ni ei roi i bobl yw gweddïo drostyn nbw. Pwy mae Duw wedi'u rhoi yn eich calon a'ch meddwl i weddïo drostyn nbw?*

*Sut mae e eisïau i chi weddïo drostyn nbw?  
Gweddïwch hymny.*





Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n gweddïo dros*

Meddylwch am un peth i weddïo drosto ar gyfer pob un o'ch pum person sy'n rhan o'ch teulu neu'n ffrindiau

Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n gofyn am dy help*

Beth fydd yn eich helpu i weddio dros eich  
pum person?

# 7:

## HELP

Heddiw rwy'n #addogweddio #Help

*Rydyn ni'n aml yn teimlo'n ddiymadferth. Mae cymaint o newid rydyn ni am ei weld yn digwydd: ynom ni ein hunain, yn ein teuluoedd ac ymblith ein ffrindiau ac yn y byd.*

*Mae gweddi'n dechrau pan ddeuwn ni at yr unig un sy'n gallu helpu. Fydd ef byth yn ein gadael ni'n ddiymadferth. Rhoddodd ei fywyd i'n helpu.*

*Beth sydd ei angen arnoch chi?*



8:

# ADDOLI

Heddiw rwy'n #addogweddio #addoli

*Mae addoli'n golygu mwy na hoffi. Mae'n fwy na meddwl bod rhywun yn braf. Mae'n golygu credu'n gwlbl sicr eu bod nbw'n wych.*

*Mae Duw yn gyfangwbl o'ch plaid. Dyw e ddim yn niwtral amdanoch chi, yn methu penderfynu amdanoch chi, nac yn aros i wneud ei feddwl i fyny amdanoch chi. Mae nid yn unig yn eich caru. Mae'n dwlu arnoch chi.*

*Beth yw eich teimladau chi amdano fe?*

Dechreuadau gweddi:

*Addolaf di*

Gweddïwch y bydd eich teulu a'ch ffrindiau yn sylweddoli sut mae Duw yn teimlo amdany'n nhw!

Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n dathlu...*

Dathlwch y ffaith bod Duw wedi rhoi teulu a ffrindiau i chi weddio drosyn nhw.

9:

# DATHLU

Heddiw rwy'n #addogweddio #dathlu

*Dathlu yw gwneud rhywbeth sy'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol neu'n ddisgwyliedig. Mae'n golygu mynd dros ben llestri ryw faint am rywun.*

*Gwneud mawr nag sydd angen. Oberwydd, fel maen nhw'n dweud, eu bod nhw'n werth hynny.*

*Mae Duw yn werth hynny. Ond rydyn ni'n tueddu i'w gymryd braidd yn ganiataol.*

*Tasech chi'n mynd i ddathlu Duw, sut byddech chi'n gwneud hynny?*



# 10: DISTAWRWYDD

Heddiw rwy'n #addogweddio #distawrwydd


*Datguddiad 8:1 Mae'n rhyfeddol 'Pan agorodd y seithfed sêl' (peidiwch â gofyn) 'bu distawrwydd yn y nefoedd am ryw hanner awr.'*

*Anaml iawn y mae ein bywydau'n cynnwys distawrwydd. Mae rhyw sŵn yn barhaus. Mae llawer obonon ni hyd yn oed yn methu cysgu heb sŵn yn y cefndir.*

*Mae Duw yn rhoi distawrwydd i ni – er mwyn i ni fod yn bresennol iddo fe ac ef i ni.*

*Rhowch gynnig arni. Nid am hanner awr. Dim ond am dri munud. Ewch rywle lle gallwch chi fod ar eich pen eich hun a rhowch eich ffôn i gadw. Eisteddwch neu sefwch.*

*Byddwch yn ymwybodol o Dduw a phrofi pa mor agos yw e atoch chi.*





Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n dod i mewn i'th ddistawrwydd*

Gwrandewch ar beth allai fod gan Dduw i'w ddweud ynghylch y pum person sy'n rhan o'ch teulu neu'n ffrindiau.


# 11:

## DELED DY DEYRNAS

Heddiw rwy'n #addogweddio  
#DeledDyDeyrnas

*Un o'r pethau sy'n ein rhyfeddu yngbhlch Iesu yw  
pa mor fuan mae'n ein gwahodd ni i wneud pethau  
drosto fe yn y byd.*

*Dyw e ddim yn aros nes bod gennym ni  
gymwysterau, profiad nac oedran. Mae'n ein galw  
ni heddiw i weithio gyda fe. Ydych chi'n barod i  
dderbyn yr her?*



Dechreuadau gweddi:

*Rwy'n gwneud byn yn dy Enw di*

**Os ydych chi'n barod i wneud hynny,  
daliwch ati i weddio y bydd eich pum  
person yn dod i adnabod Iesu.**

*Ymunwch â'r don fyd-eang o weddi*  
*thykingdomcome.global*

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Christian Publishing & Outreach  
[cpo.org.uk](http://cpo.org.uk)